



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Deddf Tiroedd Comin 2006

**Trosolwg Cyffredinol ar wneud cais o
dan Adran 16 ac Adran 38**



INVESTOR IN PEOPLE

Mai 2013

CYNNWYS

Pennod

Cyflwyniad	1
Mae arnaf angen gwneud gwaith ar Dir Comin – A oes angen caniatâd neu a oes ffordd arall i wneud hyn heb gael caniatâd?	2
Pa gamau ddylwn i eu cymryd cyn gwneud cais?	3
Nid wyf yn siwr o union leoliad y tir comin lle byddaf yn gwneud y gwaith neu a fydd yn rhan o'r cyfnewid, a allaf wneud cais o hyd ond gan gynnwys ardal wyro?	4
Os gwnaf gais o dan Adran 38 neu Adran 16, a yw fy nghais yn debyg o lwyddo?	5
Sut gallaf wneud cais, a beth fydd yn digwydd iddo?	6
Y Penderfyniad	7
Faint o amser bydd fy nghais yn ei gymryd?	8
Beth sy'n digwydd os gwnaf gamgymeriad gyda'm cais?	9
Beth ddylwn ei wneud os oes angen gwneud gwaith brys ar dir comin?	10

Gwneud cais am ganiatâd i wneud gwaith ar dir comin neu i ddatgofrestru a chyfnewid tir comin neu feysydd trefi neu bentrefi – Trosolwg Cyffredinol

Noder: Mae a wnelo'r wybodaeth a geir yn y canllawiau hyn â'r gweithdrefnau [yng Nghymru yn unig](#).

Dylid darllen y daflen hon yn ychwanegol at 'Nodiadau ar gwblhau cais i ddatgofrestru a chyfnewid tir comin neu feysydd trefi neu bentrefi' a/neu 'Nodiadau ar gwblhau ffurflen gais am ganiatâd i wneud gwaith ar dir comin'.

Ar 1 Ebrill 2013, rhoddodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru y gorau i weithredu a throsglwyddwyd eu swyddogaethau i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Roedd y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi, ond nid oes ganddi unrhyw statws cyfreithiol.

1. Cyflwyniad

Os byddwch yn ystyried gwneud gwaith ar dir comin bydd fel arfer mewn dau gategori:

- Gwaith ar gyfer rheoli, gwella neu warchod y tir comin (neu beri'r lleiaf o niwed iddo) neu sydd fel arall yn gyson â'r defnydd traddodiadol ar y tir comin (e.e. pori, hamdden y cyhoedd), y gall cais adran 38 fod yn briodol iddo; a
- Gwaith nad yw'n gyson â'r defnydd traddodiadol ar y tir comin, nac ar gyfer ei reoli, ei wella neu ei warchod, y gall cais datgofrestru a chyfnewid o dan adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006 fod yn fwy priodol.

O dan adran 38 Deddf Tiroedd Comin 2006, mae arnoch angen caniatâd Gweinidogion Cymru i wneud unrhyw waith dan gyfyngiadau ar **dir a gofrestrwyd fel tir comin** o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965.

Mae adran 38 hefyd yn gymwys i dir heb ei gofrestru'n dir comin a reoleiddir gan Ddeddf Cadarnhau Gorchymyn Dros Dro o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1876. Nid yw adran 38 yn gymwys yn gyffredinol i feysydd trefi neu bentrefi cofrestredig [Gweler y nodyn 'Canllawiau Tiroedd Comin – Darpariaethau Caniatâd Arbennig (ar wahân i Dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)' am fwy o wybodaeth am feysydd trefi

neu bentrefi], ond gall wneud hynny weithiau os bydd maes o'r fath yn destun cynllun neu Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Arolygiaeth Gynllunio i ymarfer rhai o'u swyddogaethau o dan adrannau 16 a 38 y Ddeddf Tiroedd Comin ar eu rhan.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn Asiantaeth o Lywodraeth Cymru a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ein prif waith yw prosesu apeliadau cynllunio a gorfodi a chynnal ymchwiliadau i gynlluniau datblygu lleol. Rydym hefyd yn ymdrin ag amrywiaeth eang o waith achos apeliadau eraill gan gynnwys apeliadau ar yr Amgylchedd a Gorchmynion Hawliau Tramwy. Ymdriniwn ag apeliadau yng Nghymru o'n swyddfa yng Nghaerdydd ac ag apeliadau yn Lloegr o'n swyddfa ym Mryste.

2. Mae arnaf angen gwneud gwaith ar Dir Comin – A oes angen caniatâd neu a oes ffordd arall i wneud hyn heb gael caniatâd?

Mae gwaith dan gyfyngiadau yn unrhyw waith sy'n rhwystro neu'n atal mynediad i'r tir neu drosto. Mae'n cynnwys ffensio, adeiladau, adeilweithiau, ffosydd, cwterydd, argloddiau a gwaith arall, lle bydd effaith y cyfryw waith yn rhwystro neu'n atal mynediad. Mae hefyd yn cynnwys, ym mhob achos, arwynebau solet newydd, megis ar gyfer maes parcio neu ffordd fynediad newydd.

Os dewch i'r casgliad fod y gwaith arfaethedig ar gyfer rheoli, gwella neu warchod y tir comin (neu beri'r lleiaf o niwed iddo) neu fel arall yn gyson â'r defnydd traddodiadol arno (e.e. pori, hamdden y cyhoedd) yna gwnewch gais o dan adran 38.

Os na fyddai'r gwaith arfaethedig, at ei gilydd, yn cwrdd â'r meini prawf y manylir arnynt yn y paragraff uchod (e.e. lle mae'r cynnig ar gyfer ymestyn eiddo neu ardd breifat), yna mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd o dan adran 38. Mewn achosion o'r fath, byddai'n fwy priodol gwneud cais yn hytrach o dan adran 16 y Ddeddf, a chynnig tir yn gyfnewid am yr ardal sydd ei hangen ar gyfer y gwaith (gweler "*Nodiadau ar gwblhau cais i ddatgofrestru a chyfnewid tir comin neu feysydd trefi neu bentrefi*").

Mae adran 16 Ddeddf Tiroedd Comin 2006 yn caniatáu tynnu tir oddi ar y gofrestr fel tir comin (fel ei fod yn peidio â bod yn dir comin cofrestredig) a chynnig tir yn ei le nad oedd cyn hynny'n dir comin (i'w gofrestru'n dir comin).

Byddai cais o dan adran 16 hefyd yn briodol mewn sefyllfaoedd lle nad oedd bwriad gwneud gwaith, ond bod y perchennog serch hynny am gael gwared ar y statws tir comin.

Mae tiroedd comin yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dod o dan gyfraith wahanol i diroedd comin adran 38. Os ydych yn cynnig gwneud gwaith ar dir comin yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol edrychwch ar y nodyn 'Canllawiau Tiroedd Comin – Darpariaethau Caniatâd Arbennig (tiroedd Comin yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)'.

3. Pa gamau ddylwn i eu cymryd cyn gwneud cais?

Argymhellir yn gryf eich bod yn ymgynghori'n anffurfiol yn helaeth **cyn** cyflwyno cais. Bydd hyn o gymorth ichi adnabod unrhyw wahaniaethau a dod o hyd i ddatrysiadau buan. Mae cyfathrebu da ar y cam hwn yn hanfodol os ydych am wneud y mwyaf o'r posibilrwydd o ddatblygu cynnig gyda gradd uchel o gonsensws ymysg y partïon sydd â buddiant. Po fwy'r consensws y gallwch ei gael cyn cyflwyno'ch cais, po rwyddaf mae'r prosesu ar eich cais yn debyg o fod. Fodd bynnag, dylid nodi yma nad yw cyrraedd consensws o reidrwydd yn awgrymu y bydd y cais yn llwyddo.

Ymysg y rhai y dylech ystyried ymgynghori'n anffurfiol â hwy y mae'r rhai y bydd angen ichi'n ddiweddarach ymgynghori'n ffurfiol â hwy os penderfynwch wneud cais:

- perchnogion y tir
- cyngor neu gymdeithas y cominwyr (os oes un)
- pob cominwr gweithredol
- eraill sydd â buddiant cyfreithiol e.e tenantiaid, y sawl sydd â hawddfreintiau, hawliau eraill neu gyfamodau ar y tir
- unrhyw gyngor cymuned, dosbarth, dinas neu sir (y lleolir y tir comin yn eu hardal)
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cadw
- Awdurdod Parc Cenedlaethol (os yw'r cynnig mewn Parc Cenedlaethol)
- Bwrdd Cadwraeth neu Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE (os yw'r cynnig mewn AHNE)
- Cymdeithas y Mannau Agored

Gall eraill y byddwch am eu cynnwys ar y cam hwn gynnwys: pob cominwr hysbys, os ydynt yn gweithredu ar eu hawliau ai peidio, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt, Fforymau Mynediad, Cymdeithas y

Cerddwyr, cymdeithasau amwynder lleol, ac unrhyw drigolion lleol y credwch yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y gwaith arfaethedig.

Nodwch yn glir **ar y cam hwn** beth yw'r nodau sydd gennych, a rhowch ystyriaeth lawn i bob dewis posibl ar gyfer eu sicrhau, cyn ichi lunio cynnig ffurfiol. Rhowch gydnabyddiaeth ac ystyriaeth i nodau a phersbectifau y rhanddeiliaid eraill yn y tir comin fel rhan ganolog o'r broses.

4. Nid wyf yn siwr o union leoliad y tir comin lle byddaf yn gwneud y gwaith neu a fydd yn rhan o'r cyfnewid, a allaf wneud cais o hyd ond gan gynnwys ardal wyro?

Mae'n rhaid bod Gweinidogion Cymru yn fodlon y byddai unrhyw waith arfaethedig neu gyfnewid a gynigir o les i ddefnyddwyr y tir comin, neu mewn achos o gyfnewid tir, i berchnogion y tiroedd dan sylw a bod y telerau yn gyfiawn a rhesymol. Wrth benderfynu a yw telerau'r cyfnewid a gynigir yn gyfiawn a rhesymol, rhoddir ystyriaeth i sylwadau am ei effaith ar fuddiannau perchnogion unrhyw hawliau tir comin ar y tiroedd, ar unrhyw lyffetheiriau ar y tiroedd ac ar y cyhoedd yn gyffredinol.

Ni chaiff ceisiadau eu hystyried o gwbl oni bai bod yr union ardal o dir wedi ei nodi'n eglur o'r cychwyn cyntaf. Gall pobl sydd â buddiant fod dan anfantais os na fyddant yn gwybod ar adeg hysbysu'r cais pa dir yn union sydd dan sylw. Byddai hyn yn neilltuol yn wir pe byddent yn casglu, wrth weld y cais, nad oedd effaith ar eu buddiannau, ond bod tir heb ei gynnwys ar dir y cais yn cael ei ymgorffori mewn cyfnewid – a fyddai'n effeithio ar eu buddiannau. Byddai hynny'n annheg i bartïon â buddiant a gallai adael caniatâd i gynnal gwaith neu orchymyn cyfnewid yn agored i gael ei herio'n llwyddiannus yn yr Uchel Lys.

Er bod nifer o gyfundrefnau caniatâd, sydd naill ai'n benodol, neu wrth ymarfer, yn gweithredu egwyddor 'terfyn y gwyro', nid yw hynny'n cael gwared ar yr ystyriaeth hanfodol lle gwneir cais i wneud gwaith neu gyfnewid tir comin, y dylai'r sawl sydd â buddiant mewn unrhyw un o'r materion hynny fod yn ymwybodol o'r cychwyn cyntaf o'r hyn a gynigir ar y tir yr effeithir arno.

5. Os gwnaf gais o dan Adran 38 neu Adran 16, a yw fy nghais yn debyg o lwyddo?

Seilir y penderfyniad ar deilyngdod eich cynnig, a bydd yn cloriannu pob buddiant sydd yn y tir comin, gan roi ystyriaeth i bob safbwynt a fynegir. Mae'r meini prawf i'w hystyried yn cael eu cyflwyno yn adran 39 y Ddeddf (gweler **Atodiad E** i'r 'Nodiadau ar wneud cais am ganiatâd i wneud gwaith ar diroedd comin' i gael testun llawn adrannau 38 a 39) ac ar gyfer adran 16 y Ddeddf (gweler **Atodiad E** i'r 'Nodiadau ar gwblhau cais i ddatgofrestru a chyfnewid tir comin neu faes tref neu bentref').

Edrychir ar y meini prawf hyn yng ngholeuni amcan y polisi o reoli, gwella neu warchod y tir comin, cynnal y defnydd traddodiadol arno (e.e. pori, hamdden y cyhoedd), a sicrhau nad yw stoc cyffredinol y tir comin yn cael ei leihau. Bydd hyn yn galluogi diogelu amrywiaeth, amrywogaeth a maint cyffredinol y tir comin. Bydd angen ichi felly allu dangos, parthed y meini prawf ar gyfer adran 39 neu adran 16, sut mae'r gwaith arfaethedig yn mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn.

Dylai'r wybodaeth a roddwch gyda'ch cais fod mor llawn â phosibl, yn enwedig ynghylch y buddiannau amrywiol yn y tir. Yn ogystal â chynnig ffeithiau digonol (e.e. natur y cynnig ac i ba raddau y mae hawliau tir comin yn cael eu hymarfer), dylech ddatblygu'ch dadl eich hun pam rydych yn credu bod cyfiawnhad dros eich cynnig.

6. Sut gallaf wneud cais, a beth fydd yn digwydd iddo?

Camau i chi eu cymryd

Paratowch eich cais, gan gyfeirio at y *Nodiadau ar wneud cais am ganiatâd i wneud gwaith ar dir comin'* a'r '*Nodiadau ar gwblhau cais am ddatgofrestru a chyfnewid tir comin neu faes tref neu bentref'* fel bo'n briodol a'i anfon atom ni yn y cyfeiriad a ganlyn, ar y dyddiad y byddwch yn ei hysbysebu neu'n syth cyn y dyddiad hwnnw.

Yr Arolygiaeth Gynllunio Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3866
Ffacs: 029 2082 5150
E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

Mae'n rhaid ichi hysbysebu'ch cais cyn pen 7 niwrnod o'i wneud. Hysbyseb wch eich cais wrth y prif fannau mynediad i'r tir comin (neu mewn lle amlwg arall), os yw'n briodol wrth y tir cyfnewid, ac yn y prif bapur newydd lleol, gan anfon copi at bob rhanddeiliad allweddol (gweler pennod 3 y canllawiau hyn am restr o'r rhai y dylech ymgynghori â hwy).

Gadewch leiafswm o 28 niwrnod, o gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hysbysebu, i bobl ysgrifennu atom gyda'u safbwyntiau.

Mae'n rhaid i'r hysbyseb gael ei seilio ar y ffurflen hysbysu yn Atodiad A y daflen '*Nodiadau ar gwblhau cais i ddatgofrestru a chyfnewid tir comin neu feysydd pentrefi'* neu'r '*Nodiadau ar gwblhau cais am ganiatâd i wneud gwaith ar dir comin'* (fel bo'n briodol).

Mae'n rhaid ichi hefyd sicrhau bod y cais a'r dogfennau sy'n ei gefnogi ar gael i'w gweld gan unrhyw barti sydd â buddiant. Mae ceiswyr yn aml yn defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus, swyddfeydd y cyngor neu swyddfeydd post i'r diben hwn.

Ymatebion, a phenderfynu ar eich cais

Byddwn yn cydnabod derbyn eich cais cyn gynted ag sy'n ymarferol. Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol wedi'u cyflwyno gyda'r cais, ac ysgrifennwn atoch yn gofyn am fwy o ddogfennau os bydd angen.

Gall unrhyw un wneud sylw ar eich cais. Gellir gwneud sylwadau gan bartion sydd â buddiant i'r Arolygiaeth Gynllunio heb fod dim hwyrach na'r dyddiad a nodir ar yr hysbysiad, ac ni ddylai hwnnw fod dim llai na 28 niwrnod o'r dyddiad y gwnaethoch gydymffurfio â'r gofynion hysbysebu.

Byddwn yn anfon copi o unrhyw sylwadau a gawn atoch chi. Bydd gennych chithau wedyn 21 niwrnod i roi sylw ar y sylwadau, os byddwch am wneud hynny.

Y weithdrefn gwneud cais

Byddwn yn rhoi gwybod ichi mor fuan â phosibl ynghylch a allwn benderfynu ar eich cais yn unig ar y dystiolaeth ysgrifenedig neu a oes angen ymchwiliad, gwrandawriad neu ymweliad â'r safle.

Yn achos ceisiadau datgofrestru a chyfnewid yn gyffredinol byddwn yn trefnu i arolygydd fynd ar ymweliad â'r safle. Bydd hynny'n galluogi asesu teilyngdod cymharol yr ardaloedd o dir. Bydd yr Arolygydd yn eich gwahodd chi ac efallai'n gwahodd gwrthwynebwyr i fynychu'r ymweliad.

Mae pob cais yn cael ei archwilio'n drwyadl, pa weithdrefn bynnag a ddilynir i benderfynu arno.

Pan na fydd unrhyw wrthwynebiad (neu nifer fach o wrthwynebiadau yn unig), a lle bydd y materion yn rhai gweddol uniongyrchol, mae penderfyniad buan yn debyg o fod yn bosibl. Cewch wybod am y penderfyniad yn ysgrifenedig.

Lle bydd angen mwy o dystiolaeth, gallwn fynd yn ein blaenau drwy un o'r dewisiadau a ganlyn, yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos:

- ymweliad â'r safle – lle datrysir y materion sydd heb eu datrys drwy ymweliad â'r ardal gan arolygydd cynllunio, a fydd yn eich

gwahodd chi ac efallai unrhyw wrthwynebwy'r i fynychu'r ymweliad;

- gwrandawriad – lle mae'r materion heb eu datrys yn gallu cael eu datrys mewn un diwrnod drwy gyfarfod anffurfiol o bartion sydd â buddiant, wedi'i hwyluso gan arolygydd;
- ymchwiliad cyhoeddus – lle mae'r materion yn gymhleth neu wedi'u cloriannu'n agos, yn ddadleuol neu'n codi materion sydd ag arwyddocâd ehangach na'r mater yn lleol. Cyfarfod yw hwn sy'n agored i'r cyhoedd ac yn cael ei hwyluso gan arolygydd, yn parhau fel arfer rhwng 1 a 2 ddiwrnod.

Ym mhob un o'r achosion uchod, ystyrir yr holl dystiolaeth a gwneir penderfyniad yn ysgrifenedig i'r ceiswyr.

Ceir rhagor o wybodaeth am weithdrefnau ar gyfer gwrandawiadau ac ymchwiliadau yn ein canllaw gweithdrefnau sydd ar wahân.

7. Y Penderfyniad

Yn dilyn ystyried cais o dan adran 16, bydd yr Arolygydd yn paratoi adroddiad i Weinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad yn cynnwys casgliadau am y materion a godwyd ac argymhelliad ynghylch a ddylid caniatáu'r cais ai peidio. Os caniateir y cais, ac y rhoddir caniatâd, bydd Llywodraeth Cymru yn drafftio gorchymyn ac yn ei anfon atoch i gael sylwadau (nid cyfle yw hwn i newid manylion y cais, dim ond i sicrhau bod y gorchymyn yn adlewyrchu'n gywir y diwygiadau a wneir i'r gofrestr tiroedd comin). Wedi iddynt fod yn siwr bod y gorchymyn yn gywir ym mhob agwedd arno byddant yn ei gadarnhau'n ffurfiol. Byddant yn atodi'ch map(iau) chi at y gorchymyn datgofrestru a chyfnewid, yn anfon copïau atoch chi ac at yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin a chopi o lythyr y penderfyniad at bawb a fydd wedi gwneud sylwadau. Byddant yn gofyn eich bod chi'n gofyn i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin wneud y diwygiadau angenrheidiol i'r gofrestr o fewn amser penodol a chadarnhau pan fyddant wedi diwygio'r gofrestr.

Yn y rhan fwyaf o achosion, penderfynir ar geisiadau a wneir o dan adran 38 gan Arolygydd neu rywun arall a benodir. Os caniateir y cais ac y rhoddir caniatâd, byddwn yn atodi'ch cynllun wrth lythyr y penderfyniad ac yn anfon copïau o'r llythyr at bob parti sydd â buddiant.

8. Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd?

Bydd faint o amser y bydd eich cais yn ei gymryd yn dibynnu ar natur a maint y cynigion, ansawdd y wybodaeth a roddir gennych, nifer y llythyrau a ddaw i law a'r weithdrefn a ddilynir (cyfnewid llythyrau, ymchwiliad cyhoeddus, gwrandawriad neu ymweliad â safle).

Er bod cyfnewid gohebiaeth yn debyg o ddod i ben ar ôl yr ail rownd, gallwn roi terfyn ar hynny os bydd, er enghraifft, y gwrthwynebiadau yn cael eu tynnu'n ôl neu, mewn achos mwy cymleth, ei bod hi'n dod yn eglur yn weddol gynnar y bydd angen ymchwiliad neu wrandawriad. I'r gwrthwyneb, gallwn ymestyn y cyfnewid ar lythyrau, lle byddai hynny'n fuddiol i egluro unrhyw bwyntiau fydd heb eu datrys.

Fel canllaw, os na fydd unrhyw wrthwynebiad, ac y gellir datrys y materion drwy ohebiaeth, byddem yn disgwyl penderfynu ar geisiadau adran 38 cyn pen 12 wythnos o gael papurau'r cais **yn gyfan** gennych chi. Lle ceir gwrthwynebiadau a bod angen cyfnewid gohebiaeth byddem yn disgwyl penderfynu ar geisiadau cyn pen 26 wythnos. Lle bydd gwrthwynebiadau i gais adran 38 sydd angen ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawriad a phenderfyniad gan Arolygydd; ac i bob cais adran 16 byddem yn disgwyl gallu penderfynu ar gais cyn pen 12 mis. Gall achosion ymchwiliad mwy cymhleth, neu achosion pan gynhelir ymchwiliad ochr yn ochr ag ymchwiliad perthnasol (e..e i gais cynllunio) gymryd llawer mwy o amser.

9. Beth sy'n digwydd os gwnaf gamgymeriad gyda'm cais?

Dylai'ch cais fod yn gyfan ym mhob agwedd arno wrth ichi ei gyflwyno (gweler y rhestr wirio ar ddiwedd y Ffurflen Gais). Os yw'n anghyflawn, yn anghywir, neu os oes rhai agweddau arno'n aneglur, ysgrifennwn atoch yn gofyn am y wybodaeth goll. Os bydd llawer o wybodaeth hanfodol yn eisiau, byddwn yn anfon y papurau'n ôl atoch ac yn gofyn ichi eu dychwelyd dim ond pan fydd y cais yn gyfan. Gall hynny fynnu ailhysbysebu'r cynigion pan gaiff y cais wedi ei gywiro ei ailgyflwyno.

Ni allwn addo gwneud unrhyw gynnydd gyda'ch cais hyd nes y daw'r holl wybodaeth sydd ei hangen i law, gan gynnwys eich llythyr chi'n cadarnhau'ch bod wedi cwrdd â'r gofynion hysbysebu. Er byddwn yn prosesu cais rhannol cyn belled â phosibl, bydd unrhyw beth fydd wedi'i hepgor bron yn bendant yn arwain at oedi yn y broses.

10. Beth ddylwn ei wneud os oes angen gwneud gwaith brys ar dir comin?

Cydnabyddir o bryd i'w gilydd y bydd argyfyngau yn codi sydd angen ymyrryd er mwyn cadw diogelwch. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi caniatâd i waith sydd wedi ei gychwyn neu ei orffen, ac felly gallwch gymryd y camau angenrheidiol a gwneud y cais wedyn. Dylech gofio y dylai'r gwaith a wneir fod yn gymesur â'r argyfwng neilltuol ac y bydd yr un ystyriaethau mewn grym ynghylch gwaith wedi ei gychwyn neu ei orffen ag i gais a wneir cyn dechrau ar waith.

11. Cwynion ac Adolygiad Barnwrol

Cwyno wrthym ni

Os oes gyda chi gŵyn am y ffordd yr ymdrinnir neu'r ymdriniwyd â'r cais, naill ai am yr Arolygydd neu gan ein Swyddog Achos, dylech gysylltu â'r Swyddog Cwynion yn:

Y Swyddog Cwynion
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3889

E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

Ymchwilir i'ch cwyn yn ddiuedd ac fel arfer gallwch ddisgwyl ateb cyn pen tair wythnos. Os bydd camgymeriad wedi ei wneud, byddwn yn egluro hynny ac yn cynnig ein hymddiheuriadau, ond nid yw'r gyfraith yn caniatáu inni newid y penderfyniad mewn unrhyw fodd.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am ein gweithdrefnau cwyno ar ein gwefan yn:

www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/row/complaints_leaflet.pdf

Yr Uchel Lys

Ar ôl cyhoeddi penderfyniad ar y cais ni fydd gennym unrhyw rym i'w ddiwygio na'i newid. Yr unig ffordd y gellir adolygu'r penderfyniad yw drwy fynd drwy adolygiad barnwrol yn llwyddiannus.

Mae'n rhaid ichi wneud cais i'r Uchel Lys am Adolygiad Barnwrol yn ddiymdroi a beth bynnag heb fod dim hwyrach na 3 mis o ddyddiad y penderfyniad. I allu llwyddo, byddai'n rhaid ichi ddangos bod

- Y penderfynwr wedi mynd y tu hwnt i'r pwerau sydd ganddo/ganddi; neu

- Na fodlonwyd y meini prawf sy'n berthnasol i'r math hwn o gais a bod hynny wedi niweidio'ch buddiannau.

Dylech wneud cais i:

Y Llys Gweinyddol
Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd
2 Stryd y Parc
Caerdydd
CF10 1ET
Ffôn: 029 2037 6400
Gwefan: www.courtservice.gov.uk

Os ydych am ddilyn y camau hyn, efallai y byddwch am geisio cyngor gan gyfreithiwr neu gan Gyngor Ar Bopeth.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Os ydych yn meddwl eich bod wedi'ch trin yn annheg am nad ydym ni neu'r Arolygydd wedi gwneud ein gwaith yn iawn, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw bwerau i gwestiynu teilyngdod cais nac i newid y penderfyniad. Mae a wnelo yn unig â'r ffordd rydym yn ymdrin â cheisiadau ac yn eu prosesu. Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio fel arfer os na fyddwch wedi cwyno wrthym ni'n gyntaf.

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon yn:
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd Yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
Ffôn: 01656 641150 (codir tâl am bob galwad ar y gyfradd leol)
E-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk
Gwefan www.ombudsman-wales.org.uk

Y Cyngor ar Dribiwnlysoedd

Os oes gennych gŵyn am y weithdrefn a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer y cais, gallwch gwyno wrth y Cyngor ar Dribiwnlysoedd (Nid oes gan y Cyngor ar Dribiwnlysoedd unrhyw bŵer i gwestiynu teilyngdod y cais nac i newid y penderfyniad). Dyma'u cyfeiriad:

Y Cyngor ar Dribiwnlysoedd
81 Chancery Lane
Llundain

WC2A 1BQ

Gwefan: www.ajtc.gov.uk

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am herio penderfyniad yn yr Uchel Lys ar ein gwefan yn: <http://www.planningportal.gov.uk/>

12. Sut byddwn yn defnyddio'ch Gwybodaeth Bersonol

Os byddwch yn cymryd rhan mewn apêl, bydd y math o wybodaeth bersonol a geir yn eich sylwadau yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt fel arfer ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn penderfynu ei rhoi.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu'r apêl, ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eich sylwadau ysgrifenedig ar gael i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phartïon statudol eraill.

Rydym yn cyhoeddi dogfennau apêl a sylwadau, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau, ar y Porth Cynllunio. Caiff rhifau ffôn, rhifau ffacs a chyfeiriadau e-bost eu dileu cyn cyhoeddi. Rydym hefyd yn cyhoeddi penderfyniad yr arolygydd.

Mae'r arweiniad yn y daflen hon yn esbonio'r broses apelio'n fanylach ac fe'ch cynghorir i ddarllen y daflen hon cyn rhoi unrhyw sylwadau. Am ragor o fanylion, gweler ein datganiad preifatrwydd:

www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/about/privacystatement=cy

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'n defnydd o wybodaeth bersonol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod.

Rhagor o Wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi preifatrwydd ar gael ar gais neu ar ein gwefan ar:

<http://www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/planninginspectorate=cy>

Os oes gennych chi ymholiadau am ein polisi, neu os hoffech wneud cais am eich data personol, yna cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod:

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adeiladau'r Goron

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3866

Ffacs: 029 2082 5150

E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk.